# SL(5)697 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020 (y "Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd").

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn gosod gofynion ar bersonau sy'n dod i Gymru ar ôl bod dramor. Maent yn cynnwys gofyniad i bersonau sy'n cyrraedd Cymru ynysu am gyfnod i'w bennu yn unol â'r Rheoliadau hynny. Mae gofynion y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn ddarostyngedig i eithriadau, ac mae categorïau penodol o bersonau wedi eu hesemptio rhag gorfod cydymffurfio.

Mae'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol hefyd yn rhoi pwerau i bersonau penodedig mewn amgylchiadau penodedig i ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig mewn perthynas â throseddau a gyflawnir o dan y rheoliadau, gan gynnwys mewn perthynas â throseddau o fethu â chydymffurfio â'r gofynion i ynysu.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn:

- rhoi'r newidiadau a nodwyd gan y Gydganolfan Bioddiogelwch o ran statws risg iechyd cyhoeddus rhai gwledydd neu diriogaethau, fel sy'n angenrheidiol er mwyn gwarchod iechyd y cyhoedd.  Mae Rheoliad 2 yn hepgor y cofnod ar gyfer yr Ynysoedd Dedwydd o'r rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt, tra bod rheoliad 4 yn ychwanegu Botswana a Saudi Arabia at y rhestr o wledydd a thiriogaethau esempt; a
- newid swm yr hysbysiad cosb benodedig y caniateir ei ddyroddi o ran methu ynysu o dan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol. Mae rheoliad 6 o'r Rheoliadau yn disodli swm penodedig o £1,000 gyda graddfa symudol sy'n dechrau ar £500 ar gyfer trosedd gyntaf.

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth y Cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr gwasanaethau masnachol i deithwyr sy'n cyrraedd Cymru ar lestr neu awyren ddarparu gwybodaeth benodol i deithwyr sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny. Mae'r wybodaeth yn ymwneud â mesurau sy'n cael eu cymryd yn y Deyrnas Unedig mewn ymateb i'r coronafeirws, gan gynnwys mesurau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd er mwyn:

- diwygio swm yr hysbysiad cosb benodedig y caniateir ei ddyroddi o dan Reoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd. Mae rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio swm yr hysbysiad cosb benodedig o £4,000 gyda graddfa symudol sy'n dechrau ar £1,000 am drosedd gyntaf; ac
- yn gwneud diwygiadau canlyniadol o ganlyniad i'r diwygiadau a wnaed gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020 i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol er mwyn lleihau'r cyfnod y mae'n rhaid i berson ynysu o 14 o ddiwrnodau i 10 niwrnod.

Daeth y Rheoliadau hyn i rym am 4.00 am ar 12 Rhagfyr 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd ddirymu'r Rheoliadau hyn o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Mae'r pedwar pwynt canlynol wedi'u nodi i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y gosodir offeryn penderfyniad negyddol gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym), a'r esboniad am dorri'r rheol a roddodd Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 11 Rhagfyr 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol yn y llythyr:

> *"Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn galluogi'r Rheoliadau hyn i ddod i rym cyn gynted â phosibl, ac o ystyried newid yn y dystiolaeth ynghylch risg mewn cysylltiad â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."*

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop yn gysylltiedig â'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol a'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur."*

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn."*

Mewn llythyr at y Llywydd oddi wrth Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd dyddiedig 11 Tachwedd 2020, eglurir hefyd fel a ganlyn:

> "*Oherwydd natur frys y Rheoliadau, ni chynhaliwyd ymgynghoriad."*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Nodwn na chafodd asesiad effaith rheoleiddiol ei wneud mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn darparu na chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol:

> *"oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd."*

Wrth ystyried rheoliadau blaenorol a ddiwygiodd y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol, adroddodd y Pwyllgor ar absenoldeb asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y Rheoliadau diwygio, a'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiadau mewn perthynas â'r Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru)(Diwygio), Rheoliadau Rhif 18 a 19, ar 24 Tachwedd 2020. Yn benodol, nodwn y canlynol:

> *"Mae Rheoliadau wedi eu gwneud i ymateb i argyfwng iechyd y cyhoedd, felly ni fu'n bosibl llunio a chyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ochr yn ochr â hwy. Caiff Asesiad Effaith Integredig o'r gofynion i ynysu ar gyfer teithio rhyngwladol ei gyhoeddi maes o law."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**17 Rhagfyr 2020**